Arolwg staff - canllawiau ar gyfer yr awdurdod lleol

Rhagarweiniad

Defnyddir yr wybodaeth a gesglir drwy'r arolwg i gynorthwyo'r tîm:

- i ddeall y materion allweddol o fewn y gwasanaethau cymdeithasol o bersbectif sampl sy'n drawstoriad cynrychioliadol o staff a gyflogir yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol;
- i adnabod meysydd i ymchwilio ymhellach iddynt;
- i ddarparu tystiolaeth ar gyfer gwneud dyfarniad mewn meysydd megis y gweithlu, arweiniad a diwylliant.

Cynhelir yr arolwg yn gynnar yn y broses adolygu fel ffordd o geisio barn cyfran sylweddol o'r staff yn anuniongyrchol. Dosberthir holiaduron i'r holl staff mewn rhai categorïau ac i drawstoriad cynrychioliadol, wedi'u dewis ar hap, mewn eraill. Caiff yr holiaduron sydd wedi'u cwblhau eu dadansoddi a'u trafod gyda'r awdurdod lleol, a chyhoeddir crynodeb o'r canlyniadau gyda'r adroddiad terfynol.

Yr holiadur

Mae i'r holiadur bedair rhan.

Rhan 1 – Amdanaf fi

Rhan 2 – Ynghylch y gwasanaethau cymdeithasol fel sefydliad

Rhan 3 – Trefnu a chynllunio'r gwasanaethau cymdeithasol

Rhan 4 – Argraffiadau cyffredinol

Ym mhob un o'r pedair adran, does ond angen i staff dicio blychau mewn ymateb i ddatganiadau. Bydd rhai pobl am wneud sylwadau ychwanegol, er enghraifft, ynghylch meysydd lle mae perfformiad yn arbennig o dda neu lle mae yna bryderon. Mae yna ofod ar gyfer sylwadau ar ddiwedd pob adran.

Cynlluniwyd yr holiadur ar gyfer ei ddefnyddio'n hyblyg ar draws ystod eang o grwpiau staff. Gofynnir i bawb sy'n derbyn holiadur gwblhau Rhannau 1 a 4. Mae'r adrannau hyn o gymorth i ddarparu trosolwg o agweddau'r staff ar draws y gwasanaethau cymdeithasol. Maent yn cynnwys datganiadau y gall holl aelodau'r staff ymateb iddynt ar sail eu profiadau eu hunain.

Ar gyfer rhai aelodau staff, gall rhai datganiadau yn Rhannau 2 a 3 fod y tu hwnt i'w gwybodaeth neu eu profiad. Gofynnir iddynt dicio'r blwch wedi'i labelu *amherthnasol* ar gyfer y datganiadau hynny.

Cynnal yr arolwg

Yr arolwg staff yw un o'r prif faterion ar yr agenda ar gyfarfod cynllunio'r adolygiad (Wythnos 3 yr adolygiad). Mae'r cyfarfod yn ystyried sut y bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal a'r angen i gymryd i ystyriaeth unrhyw faterion sy'n benodol i'r awdurdod lleol. Cytunir ar sut i greu sampl yr arolwg.

Disgwylir yr anfonir copi o'r holiadur at yr holl staff sy'n gyfrifol am reoli achosion ac at yr holl staff sy'n rheolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol. Ar sail dewis ar hap, dylai 10% o'r staff mewn grwpiau eraill (megis cymorth busnes, gofal cartref, gofal dydd, gofal preswyl ac agweddau eraill ar ddarparu gwasanaethau) dderbyn copi o'r holiadur. Dylid sicrhau bod y sampl yn adlewyrchu dosbarthiad y staff o fewn y gwasanaethau cymdeithasol, yn nhermau swyddogaeth a daearyddiaeth. Dylid cadw cofnodion o'r broses samplu er dibenion archwilio.

Yr awdurdod lleol sy'n dosbarthu'r holiaduron i'r staff, ynghyd â chopi o'r daflen, *Adolygu Eich Gwasanaethau* (Wythnos 6 yr adolygiad). Gellir gwneud hyn drwy ddull electronig neu ddefnyddio copïau papur. Gallech hefyd gynnwys llythyr yn annog staff i gymryd rhan yn yr arolwg. Dychwelir holiaduron wedi'u cwblhau yn uniongyrchol at y tîm cydadolygu mewn amlenni gyda'r cludiant wedi'i dalu a gyflenwir gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Dadansoddir y canlyniadau mewn pryd ar gyfer yr asesiad interim sy'n archwilio'r holl dystiolaeth o'r cam adolygu eang (Wythnos 14 yr adolygiad). Yr arfer yw rhannu'r canlyniadau gyda'r awdurdod lleol yn y cyfarfodydd rhagarweiniol sy'n dod â'r cam hwn i ben. Yn ein profiad ni, mae dadansoddi'r holiaduron yn ansoddol yn aml yr un mor ddefnyddiol ag astudio'r data ystadegol. Edrychwn am sylwadau sy'n ymddangos yn gynrychioliadol ac sydd wedi'u hategu gan dystiolaeth o ystod o ffynonellau eraill.